



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Vaughan Gething
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17/06/2013

Annwyl Aelodau,

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Fel rhan o'r pwerau o dan Ran 2 adran 4 Mesur y Gymraeg gall Comisiynydd y Gymraeg wneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru; cyflwyno sylwadau i unrhyw berson neu roi cyngor i unrhyw berson. Un agwedd ar y gwaith hwn yw gwneud sylw ar feysydd ag iddynt draweffaith posibl ar y Gymraeg.

Wrth ymateb i'r broses ymgynghori yn ystod y cyfnod diwethaf, mynegwyd pryder gennym ar sawl achlysur ynghylch diffyg cyfeiriadau uniongyrchol at y Gymraeg ar wyneb Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai cyfeiriadau at y Gymraeg yn cael eu cynnwys drwy gyfrwng rheoliadau a chodau ymarfer oherwydd ystyriaethau ynghylch lefel y manylder y dylid cyflwyno ar wyneb y Bil.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi pwysleisio ar sawl achlysur pwysigrwydd ystyried y Gymraeg fel mater llorweddol mewn cyd-destunau neu feysydd polisi ehangach. Mae'n gwbl hanfodol bod y gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth a'r Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau...* wedi alinio mewn modd sydd yn sicrhau bod y naill yn atgyfnerthu'r llall. Eisoes digwyddodd hyn yn achos Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Os edrychir ar gynnwys Rhan 4, Adran 84-86 o'r Ddeddf honno, ceir cyfeiriadau clir a diamwys at y Gymraeg ar wyneb y Ddeddf. Gosodir y cyfeiriadau yma ofynion pendant ar awdurdodau lleol i

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg, yn ogystal â gwneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Gwneir darpariaeth bellach ar wyneb y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Deillia'r holl ofynion a nodir uchod o Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Nid yw'n ymddangos felly y ceir cysondeb yn y modd yr ystyrir y Gymraeg gan adrannau Llywodraeth Cymru wrth iddynt fynd ati i lunio polisiau a'u harfarnu. Yn ategol i hynny, ymddengys nad yw'r rhesymeg a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn yn gyson ychwaith.

Drwy gyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cadarnhawyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal â sefydlu hawliau ieithyddol yng nghyswllt darparu gwasanaethau drwy gyfrwng safonau y gosodir ar sefydliadau maes o law. O'r herwydd, wrth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fynd trwy'r Broses Ddeddfwriaethol, dylid sicrhau bod cyfeiriadau pendant at y Gymraeg ar wyneb unrhyw Fil, lle bo'n briodol gwneud hynny.

Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi ei anelu at sicrhau gwasanaethau o safon uchel, sy'n ymatebol ac yn rhai sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Wrth ystyried hynny, mae'n bryder gennym nad oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg ar wyneb y Bil ei hun.

Fe'ch anogwn felly i sicrhau bod y swyddogion drafftio yn cynnwys datganiad echblyg o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wyneb y Bil hwn, a thrwy hynny'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru at sicrhau, drwy gyfrwng deddfiadau, bod dyletswyddau ar gyrrff i ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, gofynnwn i chi hefyd ystyried y gwelliannau isod i'r Bil:

62 Prif ddyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn y mae'n gofalu amdano

(3) Cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad a phlentyn y maent yn gofalu amdano, neu'n bwriadu gofalu amdano, rhaid i awdurdod lleol (yn ogystal a'r materion a bennir yn adran 4(4) (dyletswyddau hollgyffredinol ynghylch llesiant)), roi sylw i—

(b) argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol y plentyn, yn enwedig yng nghyswllt plentyn sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf

76 Rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol

(d) i sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod y rhiant maeth awdurdod lleol y lleolir y plentyn gydag ef—

- (i) o'r un argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol â'r plentyn, yn enwedig yng nghyswllt plentyn sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf, neu***
- (ii) yn ymgymryd â magu'r plentyn yn unol â'r argyhoeddiad crefyddol neu gefndir diwylliannol ac ieithyddol hwnnw, gan gynnwys plentyn sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf;***

Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi ystyried yr argymhellion uchod.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

- Cc. Mark Drakeford – Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwenda Thomas – Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Leighton Andrews – Gweinidog dros Addysg a Sgiliau